# Y cerddwr sy'n mynd heibio

Rydych yn cerdded yn y parc lleol pan welwch nifer o bobl ifanc (15-16 oed) yn rhedeg oddi wrth berson sy'n gorwedd ar y llawr. Mae lonciwr yn cyrraedd y person a gwelwch y lonciwr yn troi'r person sydd ar y llawr ar ei ochr. Rydych yn clywed y lonciwr yn gweiddi am help ac rydych yn mynd ato'n gyflym. Fe welwch fod y person ar y llawr tua 15 oed, mae'n gorwedd yn yr ystum adferol gyda nifer o boteli seidr gwag o'i amgylch/hamgylch.



*Llun 1 Prostooleh-Freepix.com*

Yna rydych yn siarad â'r lonciwr.

**Helpwr**: Beth sy'n digwydd?

**Lonciwr**: Rwy'n meddwl efallai ei fod/bod yn tagu. Oes gennych chi ffôn symudol?
**H:** Oes. Mi alwaf am ambiwlans.

*Yna rydych yn ffonio 999 ac yn cael y sgwrs ganlynol gyda'r teleffonydd.*

**Teleffonydd:** Pa wasanaeth argyfwng ydych chi ei angen?
**Helpwr:** Ambiwlans, ac ar frys.
**T:** Yn eich cysylltu nawr.
**Teleffonydd Ambiwlans:** Beth yw natur yr argyfwng?

*Yna mae'r helpwr yn disgrifio beth sy'n digwydd (claf yn anymwybodol yn yr ystum adferol, personau eraill wedi rhedeg i ffwrdd, lleoliad y digwyddiad, rhesymau posibl dros gyflwr y claf - poteli alcohol gwag).*
*Bydd y teleffonydd angen gymaint o wybodaeth â phosibl. Defnyddiwch eich dychymyg i ateb cwestiynau megis union leoliad yr claf yn y parc. Er enghraifft "Ger parc chwarae'r plant".*

**TA:** A oes gan yr anafedig unrhyw anafiadau amlwg?
**H:** Na
**TA:** A oes unrhyw berygl pellach i'r claf neu i bobl eraill?
**H:** Beth ydych chi'n feddwl?


Hawlfraint Heddlu Gwent 2023
© Gwent Police Copyright 2023

**TA:** A oes unrhyw wydr wedi torri o amgylch yr claf?
**H:** Na
**TA:** A oes unrhyw arwydd bod ei ffrindiau'n dychwelyd?
**H:** Na

*Efallai bod hwn yn ymddangos yn gwestiwn od, ond pe byddent yn dychwelyd a'u bod dan ddylanwad alcohol gallai'r ffordd y byddant yn gweld y sefyllfa yn un afresymol. Gallent weld yr helpwyr fel bygythiad a bod yn anghyfeillgar tuag atynt. Mae diogelwch yr helpwyr yr un mor bwysig â lles yr anafedig.*

**TA:** Mae ambiwlans ar ei ffordd ac fe fydd gyda chi ymhen dau funud.

*Bydd y Teleffonydd Ambiwlans yn cymryd manylion y galwr, a gaiff eu cofnodi gyda'r digwyddiad.*

**Diwedd y chwarae rôl.**


Hawlfraint Heddlu Gwent 2023
© Gwent Police Copyright 2023